

Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith Disgrifiad o'r Swydd

Y CEFNDIR

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys statudol a sefydlwyd o dan adran 120 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Swyddogaeth y Tribiwnlys yw penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

SWYDDOGAETHAU'R TRIBIWNLYS

Mae'r Mesur yn galluogi'r Tribiwnlys i wrando ar y materion canlynol:

1. Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd i osod Safonau'r Gymraeg ar gyrff a swyddogion sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus neu'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
2. Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad, fod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad Safon.
3. Apeliadau gan achwynydd yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad, nad oedd person wedi methu â chydymffurfio â Safon.
4. Apeliadau yn erbyn camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd.
5. Apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a ddarperir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
6. Adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn (neu i ddod ag ymchwiliad i ben cyn iddo gyrraedd ei ben draw).

DIBEN Y SWYDD

Diben y Swydd Farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â'r gyfraith, heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.

Rhaid i aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith gynnal safonau uchel gan wneud penderfyniadau annibynnol a rheoli achosion yn effeithiol, a chan weithio ar yr un pryd â Llywydd a gweinyddiaeth y Tribiwnlys.

TASGAU ALLWEDDOL

Dyma dasgau allweddol aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ac sy'n derbyn ffi:

Camau cyn gwrandawriad (pan ddirprwyir y dasg iddo gan Lywydd y Tribiwnlys)

- Ystyried hysbysiadau ynghylch ceisiadau, datganiadau achos a thystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan y partion;

- Gwneud penderfyniadau, ar sail y papurau achos, ynghylch a yw'r ceisiadau o fewn pwerau'r Tribiwnlys;
- Lle mai dim ond â chaniatâd y Tribiwnlys y ceir gwneud ceisiadau, penderfynu, ar sail y papurau achos, a ddylid rhoi caniatâd;
- Gwneud penderfyniadau ar reoli achosion, gan gynnwys amrywio neu ymestyn cyfyngiadau amser a rhoi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r partïon gymryd camau penodol er mwyn sicrhau y gall gwrandawiadau gael eu cynnal mewn ffordd deg ac effeithiol;
- Paratoi ar gyfer llywyddu mewn gwrandawiadau;
- Trafod a chytuno ag aelodau eraill o banel y Tribiwnlys ynghylch unrhyw gwestiynau am y weithdrefn i'w dilyn yn y gwrandawriad.

Llywyddu mewn gwrandawiadau

- Cyflwyno aelodau panel y Tribiwnlys i'r partïon;
- Esbonio i'r partïon a'r cyhoedd (ar ôl clywed unrhyw sylwadau perthnasol gan y partïon) y weithdrefn i'w dilyn yn y gwrandawriad;
- Llywyddu yn y gwrandawriad, gan sicrhau bod y partïon yn cael cyflwyno eu hachosion yn deg ond yn gryno, ac yn unol â Rheolau'r Tribiwnlys;
- Sicrhau bod aelodau eraill y panel yn cael chwarae rhan gyflawn yn y gwrandawriad, ac yn cael codi unrhyw faterion y maent am gael eglurhad arnynt a chymryd rhan lawn mewn unrhyw benderfyniadau gweithdrefnol o ran sut y cynhelir y gwrandawriad;
- Cyhoeddi unrhyw benderfyniadau rhagarweiniol, er enghraifft o ran sut y cynhelir y gwrandawriad, y bydd panel y Tribiwnlys yn eu gwneud;
- Gwneud nodyn digonol o dystiolaeth y partïon a'r hyn a gyflwynwyd ganddynt, fel y gall panel y Tribiwnlys drafod yr holl faterion perthnasol yn llawn, a dod i benderfyniad teg yn eu cylch;
- Esbonio i'r partïon ac i'r cyhoedd sut y bydd panel y Tribiwnlys yn dod i benderfyniad a sut y caiff y penderfyniad ei rannu â nhw;
- Lle bo'n briodol, cyhoeddi ac esbonio penderfyniad panel y Tribiwnlys ar lafar.

Camau ar ôl gwrandawriad

- Cadeirio trafodaeth panel y Tribiwnlys ynghylch ei benderfyniad;
- Rhoi gwybodaeth i banel y Tribiwnlys am unrhyw faterion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w benderfyniad;
- Sicrhau bod panel y Tribiwnlys wedi dod i gasgliadau rhesymegol, strwythuredig a chyfreithiol gadarn ar bob mater perthnasol, gan gynnwys unrhyw gwestiynau am gostau'r cais;
- Paratoi, drwy gytundeb ag aelodau eraill y Tribiwnlys, ddatganiad ysgrifenedig am gasgliadau panel y Tribiwnlys, am y penderfyniad cyffredinol a'i resymau.
- Llofnodi'r cofnod swyddogol o benderfyniad panel y Tribiwnlys;
- Ystyried a phenderfynu ynghylch unrhyw gais am adolygiad o benderfyniad panel y Tribiwnlys;
- Ystyried a phenderfynu ynghylch unrhyw gais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad panel y Tribiwnlys neu i ohirio'r penderfyniad hwnnw hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch apêl.

CYD-DESTUN CYMRU:

Ymwybyddiaeth a gwybodaeth ddigonol am Gymru a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru i allu deall:

- cyd-destun y penderfyniadau a wnaed sydd bellach yn destun apeliadau i'r Tribiwnlys;
- effaith ymarferol penderfyniadau'r Tribiwnlys ei hun.

GALLU A RHUGLDER YN Y GYMRAEG

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid i'r unigolyn a benodir, felly, allu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg i safon a fydd yn ei alluogi i drafod busnes y Tribiwnlys yn y ddwy iaith.

Caiff rhuglder yr ymgeiswyr yn y Gymraeg ei asesu yn y cyfweiliad. Bydd disgwyl ichi ateb rhai cwestiynau yn Gymraeg.

PWY SY'N CAEL GWNEUD CAIS

I fod yn gymwys i gael eich penodi'n aelod o Dribiwnlys y Gymraeg sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, rhaid ichi fodloni'r amod cymhwysedd ar gyfer penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd.

Mae'r amod cymhwysedd hon wedi'i diffinio yn Rhan 2 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae hyn yn golygu eich bod wedi ennill cymhwyster cyfreithiol perthnasol am y cyfnod gofynnol, a'ch bod ar yr un pryd wedi ennill profiad cyfreithiol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfrifo'r cyfnod gofynnol o ddyddiad cychwyn y cymhwyster perthnasol hyd y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais.

CYMERIAD AC YMDDYGIAD DA

Dylech fod yn unigolyn o gymeriad da a dylech ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd yn eich gallu i gyflawni swyddogaethau'r rôl.

Gofynnir ichi ateb nifer o gwestiynau am eich cymeriad yn y ffurflen gais a rhaid ichi wneud datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Yn benodol, rhaid ichi ddatgan a ydych yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras i chi neu i Weinidogion Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl ichi gael eich penodi.

CENEDLIGRWYDD ¹

Rhaid ichi gwblhau datganiad ynghylch eich cenedligrwydd yn y ffurflen gais. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid ichi fod un o ddinasyddion:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un arall o wledydd y Gymanwlad; neu

1 Yn deillio o adran 3 Deddf Sefydlogi 1700.

- Gweriniaeth Iwerddon.

Rhaid ichi fodloni'r gofynion hyn erbyn y dyddiad cau ar gyfer anfon eich cais.

ANGHYMHWYSTRA

Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi unigolyn i fod yn aelod sydd wedi ymgymhwysu yn y gyfraith os yw:

- a) yn anghymwys i fod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail ei gyflogaeth neu ei fod yn anaddas, neu
- b) yn anghymwys i gael ei benodi'n aelod ar sail ei oedran.

Anghymhwysra i fod yn aelod: cyflogaeth

Rydych yn anghymwys i fod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail eich cyflogaeth os ydych—

- a) yn Aelod Seneddol;
- b) yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- c) yn aelod o staff Llywodraeth Cymru;
- d) yn aelod o staff Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- e) yn Gomisiynydd y Gymraeg;
- f) yn Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg;
- g) yn aelod arall o staff Comisiynydd y Gymraeg; neu
- h) yn ŵr neu'n wraig neu'n bartner sifil i unigolyn y mae paragraff (e), (f) neu (g) yn berthnasol iddynt.

Anghymhwysra i fod yn aelod: anaddasrwydd

Rydych yn anghymwys i fod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail anaddasrwydd os ydych—

- a) wedi'ch dyfarnu'n fethdalwr a'ch bod yn dal i fod yn fethdalwr;
- b) yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled (yn ystyr Rhan VIIA o Ddeddf Ansofedd 1986), a bod cyfnod y moratoriwm o dan y gorchymyn hwnnw yn parhau;
- c) wedi dod i drefniant gyda'ch credydwyr a bod y trefniant yn dal i fod mewn grym;
- d) wedi'ch dyfarnu'n euog yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'ch dedfrydu i garchar (boed yn ddedfryd ohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;
- e) yn anghymwys i fod yn aelod o gyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru; neu
- f) yn anghymwys i fod yn gyfarwyddwr ar gwmni.

At ddibenion is-baragraff (a) rydych yn parhau i fod yn fethdalwr hyd nes y cewch eich rhyddhau o fod yn fethdalwr, neu hyd nes y caiff y gorchymyn methdalw yn eich erbyn ei ddirymu. At ddibenion is-baragraff (c) mae trefniant gyda'ch credydwyr yn parhau mewn grym hyd nes y bydd eich dyledion wedi'u talu'n llawn, neu os yw'n ddiweddarach, hyd nes diwedd y cyfnod pum mlynedd sy'n dechrau y diwrnod y cyflawnir telerau'r trefniant.

Os yw'r cwestiwn ynghylch p'un a ydych yn anghymwys i fod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail anaddasrwydd yn codi mewn perthynas â'ch penodi'n aelod o'r Tribiwnlys, dylid diystyru unrhyw ddyfarniad a wnaed yn eich erbyn dros bum mlynedd cyn dyddiad y penodiad.

Anghymhwysra i gael eich penodi: oedran

Rydych yn anghymwys i gael eich penodi'n aelod o'r Tribiwnlys os ydych eisoes wedi cyrraedd 70 oed ar ddyddiad y penodiad.

CYMORTH GWEINYDDOL

Darperir staff gweinyddol ar gyfer y Tribiwnlys gan Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Llywodraeth Cymru.

HYD Y PENODIAD A DISWYDDO

Pum mlynedd yw tymor y penodiad, ond gellir ei adnewyddu gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru benodi unigolyn am gyfnod o lai na phum mlynedd os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n fwy hwylus.

Mater i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru mewn ymgynghoriad â'r Llywydd yw'r penderfyniad i adnewyddu penodiad. 10 mlynedd yw'r cyfnod hiraf y caiff unigolyn fod yn ei swydd fel aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith, boed yn 10 mlynedd ar ôl ei gilydd neu'n gyfnodau ar wahân.

Mae'r sail dros ddiswyddo unigolyn wedi'i amlinellu ym Mharagraff 12 Atodlen 11 y Mesur.

YMRWYMIAD AMSER

Bydd gofyn ichi ymgymryd â'r dyletswyddau a nodir yn adran Tasgau Allweddol.

Bydd nifer y dyddiau gwaith, gan gynnwys yr hyfforddiant, yn dibynnu ar lwyth gwaith y Tribiwnlys ac ar ymrwymadau deiliad y swydd. Fodd bynnag, gallai'r gwaith olygu ymrwymiad o 5 diwrnod y flwyddyn.

LLEOLIAD Y TRIBIWNLYS

Ar hyn o bryd, lleolir y Tribiwnlys yn y De-ddwyrain. Fodd bynnag, rhaid ichi fod ar gael i glywed achosion a theithio ledled Cymru. Bydd hyn yn golygu teithio'n annibynnol ac aros dros nos pan fo angen.

TÂL

Telir ffi i aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith. Ni thelir cyflog ar gyfer y penodiad. Cewch gyfradd o £503 am bob diwrnod y byddwch yn ei weithio, gan

gynnwys diwrnodau hyfforddiant. Mae'n bosibl y caiff y ffi hon ei diwygio o bryd i'w gilydd.

Mae Cyllid a Thollau EM wedi dyfarnu bod y sawl a benodir i'r panel a gynullir gan y Tribiwnlys yn 'ddeiliaid swyddi', ac felly caiff y ffioedd a roddir iddynt eu hasesu o dan adrannau 5 a 62 Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003. Ar hyn o bryd, ni threthir taliadau teithio yng Nghymru na thaliadau cynhaliaeth.

Mae'n bosibl y bydd treuliau teithio rhesymol ac, mewn rhai amgylchiadau, lwfansau cynhaliaeth dros nos yn daladwy mewn perthynas â sesiynau, cyrsiau hyfforddiant ac ati. Caiff y rhain eu talu yn unol â chyfraddau cymeradwy CThEM.

HYFFORDDIANT

Bydd gofyn ichi fynd i sesiynau cynefino, arsylwi gwrandawriad a mynd i sesiynau hyfforddi eraill sy'n berthnasol i rôl a gwaith y Tribiwnlys.